233

# CERDD

## Hanes Llofruddiaeth Arswydus

### MR. T. BRIGGS, BANKER,

GAN

### FRANZ MULLER,

### EI DREIAL, EI GYFFES,

*A'i Ddienyddiad ar ddydd Llun, Tachwedd*, 14, 1864.

---

Pob dydd sy'n dwyn rhyw newydd
  Rhyfeddol gydag ef,
Yn dangos y drygioni
  A wneir o dan y nef:
Rhyw dòn 'r ol tòn sy'n dyfod
  A'i helynt gyda hi,
Dan bwys pechodau dynion,
  Griddfana'n daear ni.

Rhyfeloedd ac ymladdau
  Chwanegant yn y byd,
A llawn yw'r Newyddiadur
  O'r hanes trwm o hyd:
Y weithred mwyaf erchyll
  A fu y mis o'r blaen,
Oedd gwaith y llofrudd Muller,
  Sef testyn hyn o gân.

Yn nechreu mis Gorphenaf,
  Nos Sadwrn, cofir hyn,
'R oedd Mr. Briggs, y Banker,
  'N myn'd adref yn ddigryn;
I mewn i'r unrhyw gerbyd
  Ag ef, daeth dynyn llwyd,
A'i fryd ar ddwyn ei fywyd,
  Drwy ei uffernol nwyd.

R'oedd Mr. Briggs yn pwyso
  Ei ben ar gwr y drws,
A'r filain, sef Franz Muller,
  Ro'i iddo'r ergyd ddwys,
Nes oedd ei waed yn rhedeg
  Ar hyd y meinciau'i lawr
Ac yna, 'r ol ei *robbio*,
  Fe'i gwthiodd ef i lawr.

Fe wnaed y weithred erchyll
  Mewn dau fynydyn bach,
Tra 'r oedd y *train* yn myned,
  I'r hon 'r aeth Briggs yn iach ;
Y llofrudd âi o'r *station*,
  Heb sylw, nerth ei draed,
A Briggs ar fin y *railway*
  Yn gorwedd yn ei waed!

Ar ddechreu'r wythnos wed'yn,
  I ffeirio'r lladrad aeth,
A ffoi, â mynwes euog,
  Am dir Americ wnaeth ;
Ei ddwyn yn ol i Loegr
  Wnai y swyddogion chwyrn,
Ac yna ei *gomittio*,
  A'i roi mewn cedyrn heiyrn,

Ar foreu Iau, 'n y Sessiwn,
  Yn ninas Llundain fawr,
Dechreuwyd ar ei dreial,—
  'R oedd pryder am yr awr ;
Dros hanner cant o dystion
  A holwyd, ol a blaen,
Ac er holl ddawn y Cownsler,
  Nis cafwyd ef yn lân.

Y Barnwr a gyhoeddai,—
  "Franz Muller, leiddiad dyn,
Condemniaf di i farw,
  Am hyn par'to dy hun ;

235



I'r ddaiar gell oddi yma,
  Ac yna at y pren,
I'th grogi'n waradwyddus
  Rhwng daear las a nen!"

Ac felly yn y carchar
  Am bymtheg diwrnod bu
Yr adyn yn myfyrio
  Uwch ben ei weithred ddu
Er ymgais y gweinidog
  Gael cyffes ganddo o'i fodd,
Fe ddaliai i ddweyd yn gadarn
  Mai gwir ddiniwaid oedd.

Y dyddiau aent yn oriau,
  A'r oriau'n ychydig iawn;
Nos Sul o flaen ei golli,
  Ef mewn cyfyngder gawn;
Dysgwyliai i'n Brenines
  Ei arbed yn ddigryn,
Ond er yr ymdrech wnaethpwyd,
  Ni lwyddwyd gyda hyn

O flaen ben garchar *Newgate*,
  Yn mhlygain boreu Llun,
Y crogbren a gyfodwyd,
  Doi'r Hangman yno'i hun,
Am wyth, y gloch a dinciai—
  Y farwol glul i maes!
Yn arwydd i'r Brif-ddinas
  O'r dienyddiad câs.

Y miloedd yno gyrchai
  Yn dystion sobr syn,
A Muller hefo'r Hangman
  Ddo'i yno gyda hyn,
Gan wrando ar wasanaeth
  Ei gladdedigaeth trwm:
Ei wddw roed i'r cortyn,
  A'i galon fel y plwm!

'R oedd dôr y byd tragwyddol
Yn agor ger ei fron,
Cyffesai'i " fod yn Euog"
Pan ar fyn'd trwyddi bron!
Ac felly'r Drop ollyngwyd,
Ac yntau *lansiwyd* draw
I wyddfod Duw, ei Farnwr,
Yng nghanol gwarth a braw

Drigolion mwynion Cymru,
Cymerwch rybydd oll,
Rhag teimlad cas na bwriad,
Dwg satan ni ar goll
Er mor ddirgelaidd dywyll
Cyflawnir gweithred ddrwg,
Y Duw sy'n gwel'd y cwbwl,
I'r goleu'u ddiau ddwg.

Gan hyny, bydded cariad
Yn ffynu dros y byd,
Na chlywir am lofruddiaeth,
A'i gospedigaeth ddrud;
'N lle trachwant ariangarwch,
Blagured *hedd* y nen,
Ac yna bydd ein bywyd
Yn hyfryd mwy, Amen

A. E